

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD AR BRAESEPT ARFAETHEDIG Y COMISIYNYDD AR GYFER 2021/2022

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel Heddlu a Throsedd a gynhwysir ym Mharagraff 3(2), Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Adolygiad o'r Praesept Arfaethedig

Rhoddwyd gwybod i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru o braesept arfaethedig y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer 2021/2022 ar 18 Ionawr 2021, yn unol â Pharagraff 2, Atodlen 5 y Ddeddf.

Ystyriodd Panel yr Heddlu a Throsedd adroddiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn amlinellu'r braesept a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2021/2022, ynghyd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolog yn ei gyfarfod ar y we a gynhaliwyd ddydd Mawrth 2 Chwefror 2021.

Cynigodd y Comisiynydd gynyddu'r braesept i £89,687,902 (cynnydd o 5.53% o braesept 2020/2021), a fyddai'n cynyddu Treth y Cyngor o 5.14% (cyfwerth â £305.55 y flwyddyn, cynnydd o £14.94 y flwyddyn, neu 29 ceiniog yr wythnos i eiddo Band D).

Cafodd y Panel hefyd gyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd), a dynnodd sylw at y canlynol:

- Diweddariad ar Gyllideb 2020/2021
- Argymhellion
- Newidiadau yn y dyraniadau cyllid cenedlaethol rhwng 2020/2021 a 2021/2022
- Dyraniadau Canolog (brigdorri)
- Grant y Llywodraeth ar gyfer 2021/22
- Costau Strwythurol Sefydlog

- Cynilion a Thwf
- Cyllid a Chostau Uplift Swyddogion
- Ymatebion i arolwg
- Cymharu cyllid rhwng 2020/21 a 2021/22
- Newid yn y gyllideb
- Risgiau

Wrth graffu ar y praesept arfaethedig, cydnabu'r Panel fod y setliad dros dro yr un fath â'r llynedd (arian gwastad), ynghyd â chyllid a ddyfarnwyd ar gyfer Ymgyrch Uplift, sydd fel rhaglen y Llywodraeth i gynyddu niferoedd swyddogion yr heddlu.

Codwyd nifer o faterion fel a ganlyn:

- Dyraniadau Canolog neu frigdorri mewn perthynas â Rhaglenni Technoleg yr Heddlu; Ychwanegion at yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol a ROCUs; a Grant Arbennig yr Heddlu
- Cyllid yn ymwneud â Covid
- Risgiau sy'n gysylltiedig â chynnydd sylweddol mewn Chwyddiant Cyffredinol; costau sy'n gysylltiedig â Rhaglen Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys; goblygiadau'r Ardoll Brentisiaethau; ac effaith newidiadau i'r Fformiwla Ariannu.
- Lefel arian wrth gefn i ddelio â digwyddiadau mawr

Cydnabu'r Panel fod y 5.14% yn cyfateb i gynnydd o 0.25% ar Dreth y Cyngor y llynedd (a oedd yn 4.89%), er mwyn ystyried gofynion chwyddiant, dyraniad tuag at Raglen y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys, ac y byddai'n caniatáu rhywfaint o ail-fuddsoddi.

Cydnabu'r Panel hefyd fod y Comisiynydd wedi ystyried yr holl opsiynau o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac wedi cydnabod y gwaith helaeth a wnaed gan y Broses Cynllunio Sefydliadau, er mwyn nodi arbedion o £2.902m. Felly, gan ystyried y ffactorau hyn, roedd y Panel yn teimlo y gallent gefnogi'r cynnydd arfaethedig, er mwyn darparu cyllideb ddigonol i alluogi darparu gwasanaeth plismona gweithredol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2021/2022.

ARGYMHELLION:

(a) Bod y praesept yn cael ei gynyddu i £89,687,902 ar gyfer 2021/2022.

- **Bydd hyn yn cynyddu Treth y Cyngor o 5.14% - mae hyn yn gyfystyr â £305.55 y flwyddyn, cynnydd o £14.94 y flwyddyn, neu 29c yr wythnos ar gyfer eiddo band D.**
- **Mae'r cynnydd hwn yn cyfateb â chynnydd tybiedig y Swyddfa Gartref o £15.00.**
- **Mae hyn yn gynydd mewn praesept o 5.53% o 2020/2021.**

(b) Nodi bod £2.902 miliwn o arbedion wedi eu nodi ar gyfer 2021/2022.

- (c) Nodi y bydd £2.642 miliwn o'r arbedion yn cael eu hail-fuddsoddi mewn gweithgareddau rheng flaen.
- (d) Nodir y bydd cynnydd pellach o 62 o Swyddogion yr Heddlu, ac mae 58 ohonynt yn ganlyniad i ddyraniad Heddlu Gogledd Cymru o raglen y Llywodraeth i gynyddu niferoedd swyddogion yr heddlu (Ymgyrch Uplift). Yn ogystal, bydd 3 Swyddog ROCU (Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol) o Ogledd Cymru yn cael eu hariannu o Ymgyrch Uplift yn 2021/22.
- (e) Nodir bod twf o £0.750m wedi'i gynnwys ar gyfer gweithredu'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN).
- (f) Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y tybiaethau canlynol:
- Bydd Treth y Cyngor yn cynyddu oddeutu 5.14% yn 2021/2022, 3.93% yn 2022/2023, 3.78% yn 2023/24, 3.64% yn 2024/25 a 3.51% yn 2025/26.
 - Bydd grantiau plismona'n aros ar y lefelau presennol yn 2022/23 a thu hwnt.
 - Bydd y dyfarniadau cyflog blynyddol yn 0% ym mis Medi 2021 a 2.5% ym mhob mis Medi dilynol.
 - Bod y cynnydd mewn grant wedi'i ddyfarnu i gefnogi Ymgyrch Uplift (costau cylchol a chostau sefydlu) a'i fod wedi'i glustnodi at y dibenion hyn nes bod y cyllid terfynol yn hysbys.